# STRATEGAETH CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

## Cefndir

Mae Cyngor Torfaen yn gwerthfawrogi barn pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Nhorfaen. Mae ein meysydd gwasanaeth yn annog aelodau o'r gymuned i chwarae rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau, a defnyddio eu barn a'u profiadau i lywio cynlluniau, polisïau a chamau gweithredu.

Rydym hefyd am weithio gyda'n cymunedau mewn ffyrdd creadigol newydd i ganfod atebion a chyfleoedd a rennir i gyd-gynhyrchu a chyd-gyflwyno.

Mae ein timau'n defnyddio dulliau gwahanol i ymgysylltu ag unigolion, cymunedau, busnesau, a phartneriaid. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys ystod o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb, rhithiol ac ar lein, a chyfleoedd i ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar breswylwyr i wneud penderfyniadau am y ffordd yr ydym ni yn gweithio, a'r gwasanaethau y maen nhw'n eu derbyn.

Arweinir ein holl ymgysylltu gan ofynion deddfwriaethol, a safonau ac egwyddorion a gydnabyddir yn genedlaethol. Mae rhagor o wybodaeth am y rhain i'w gweld drwy glicio ar y delweddau isod.





## I ni, mae cyfranogiad yn golygu:

*'Galluogi pobl i gymryd rhan mewn prosesau lle maent yn pennu lefel eu cyfranogiad. Gwerthfawrogir eu barn ac mae'n llywio penderfyniadau, gan arwain at gynllunio strategol effeithiol, gwella gwasanaethau a grym personol'.*

(Bwrdd Gwasanaethau Lleol Torfaen (2013)

# Model cyfranogiad Torfaen

Mae cyfranogiad yn broses, a gallwch gymryd rhan yn y broses gyfan, neu i raddau sy'n addas i chi.




(Seiliedig ar ysgol cyfranogiad dinasyddion Arnstein)

# Ein strategaeth

Byddwn yn eich hysbysu ynghylch sut a phryd y gallwch ymgysylltu â gwasanaethau'r cyngor a'r broses ddemocrataidd. Byddwn yn darparu amrywiaeth o wahanol ffyrdd i chi gael dweud eich dweud a byddwn yn rhoi gwybod i chi sut aethpwyd ati i ddefnyddio'ch cyfraniadau. Byddwn bob amser yn adolygu'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â thrigolion i sicrhau bod hyn yn gweithio i bawb.

# Manteision cyfranogi

- Mae'n grymuso ac yn gallu helpu i effeithio ar newid cadarnhaol i unigolion a chymunedau.
- Gall cyfranogi wella'r ffordd y caiff y gwasanaethau eu darparu.
- Mae gweithio gyda thrigolion i gynllunio gwasanaethau yn ein helpu i gyfeirio ein hadnoddau mewn modd effeithiol.

# Ffyrdd o gyfranogi

Mae yna ffyrdd gwahanol o gymryd rhan i leisio barn yn Nhorfaen, Er enghraifft:

- Cysylltwch â'ch cynghorydd lleol. Dysgwch fwy **yma**.
- Dewch yn gynghorydd lleol. Dysgwch fwy **yma**.
- Dysgwch fwy am **Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu**.
- Gwyliwch gyfarfodydd y cyngor yn fyw neu wedi eu recordio ar ein **gwefan**.
- Cymerwch ran mewn ymgynghoriadau a thrafodaethau trwy ein hwb ymgynghoriadau ar-lein **Cymryd Ran Torfaen**.
- Ymunwch â phanel y bobl. **Ewch i dudalen Panel y Bobl ar wefan Cymryd Rhan Torfaen** neu e-bostiwch **getinvolved@torfaen.gov.uk**
- Cysylltwch â fforymau 50+ Torfaen. **E-bost zoe.gibbs@torfaen.gov.uk**
- Ymunwch â Fforwm Pobl Ifanc Torfaen. Cysylltwch â **philip.wilson@torfaen.gov.uk**

A….

- Dysgwch am baneli trigolion eraill, gan gynnwys Llysgenhadon Hinsawdd Torfaen, **yma**.
- Ymunwch â Phanel Trigolion BGC Gwent. Cysylltwch â **citizenpanel@torfaen.gov.uk** neu 01495 761691.
- Cysylltwch â'ch cyngor tref neu gymuned. Dysgwch fwy **yma**.
- Dilynwch @torfaen a @torfaencouncil @cyngortorfaen ar Facebook, Instagram a Twitter.

TCBC Communications Design ©2024